

Polisi ar Gyfer Cyhoeddi Adroddiadau

Crynodeb o'r polisi hwn

Pan fyddwn yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig, mae gennym ddyletswydd i baratoi adroddiad ysgrifenedig ar ein canfyddiadau ac i wneud yr adroddiad hwn yn hygyrch. Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau yr ydym yn eu dilyn i wneud ein hadroddiadau arolygu'n hygyrch.

Cyd-destun deddfwriaethol

Mae'r darpariaethau statudol canlynol yn berthnasol i gyhoeddi adroddiadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru:

- Deddf Plant 1989: paragraffau (9A), (9B) a (9C) o Adran 87.
- Deddf Safonau Gofal 2000: paragraffau (5), (6) a (7) o Adran 32.
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010: Adran 40.
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010.
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (2016): paragraff (3) o Adran 36.

Diben cyhoeddi adroddiadau arolygu

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau arolygu er mwyn hysbysu pobl sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, gwasanaeth rheoleiddiedig, ynghyd â darparwr/darparwyr y gwasanaeth hwnnw, am ganfyddiadau ein harolygiad.

Pan fydd ein canfyddiadau'n cynnwys sgôr ar gyfer ansawdd y gwasanaeth, cyhoeddir y sgôr hon fel rhan o'r adroddiad.

Trefniadau cyffredinol ar gyfer cyhoeddi adroddiadau

Rydym yn gwneud adroddiadau arolygu ar gael trwy sianeli amrywiol er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac ar gael mewn modd amserol.

Rydym yn dilyn gofynion diogelu data ac nid ydym yn cyhoeddi gwybodaeth bersonol y tu hwnt i'r hyn y mae gennym ddyletswydd statudol i'w cyhoeddi.

Gwneud adroddiadau'n hygyrch

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau arolygu ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau o wasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio ar ein gwefan ar ffurf crynodeb o'n canfyddiadau (gan gynnwys sgoriau, lle y bo'n berthnasol), ac atodir fersiwn llawn o'r adroddiad ar ffurf dogfen PDF y gellir ei hargraffu. Mae'r wefan yn rhoi mynediad at yr holl adroddiadau ar unrhyw wasanaeth a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Rydym hefyd yn darparu fersiynau copi caled o'n hadroddiadau arolygu i'r rhai hynny lle nad yw mynediad electronig yn opsiwn, ac yn darparu copïau caled yn ein swyddfeydd.

Mae pob un o'n hadroddiadau ar gael yn Saesneg, a gellir darparu adroddiadau yn Gymraeg, ac yn ddwyieithog, pan fo angen. Gallwn hefyd ddarparu adroddiadau mewn gwahanol ieithoedd yn ôl y gofyn.

Byddwn yn datblygu trefniadau ar gyfer gwneud adroddiadau arolygu'n hygyrch ar fformatau eraill, megis print bras, Braille a ffeiliau clywedol, lle y byddai hyn yn helpu i ehangu mynediad.

Cyhoeddi adroddiadau mewn modd amserol

Yn gyffredinol, rydym yn ceisio llunio drafft o'r adroddiad o fewn pum wythnos (25 diwrnod gwaith) i gynnal arolygiad. Wedi hyn, bydd gan ddarparwyr ddwy wythnos (deng diwrnod gwaith) i adolygu'r adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi a rhoi gwybod i ni os oes unrhyw wallau ynddo. O dan amgylchiadau arferol, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi wedi hyn, ond gallai'r cyhoeddi gael ei oedi os oes angen datrys problemau o ran cywirdeb.

Gweler ein polisi ar Ymateb i Adroddiadau Arolygu i gael rhagor o fanylion ar sut rydym yn prosesu ymatebion darparwyr i adroddiadau arolygu.

Trefniadau ar gyfer mathau amrywiol o wasanaethau

Ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio, rydym yn:

- a) cyhoeddi adroddiadau arolygu ar ein gwefan
- b) e-bostio copïau electronig i'r unigolion dynodedig sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth hwnnw yn uniongyrchol
- c) postio fersiynau copi caled i'r rhai hynny lle nad yw mynediad electronig yn opsiwn, ac yn
- ch) darparu copïau caled yn ein swyddfeydd.

Pan fyddwn yn adrodd ar gartrefi gofal i blant, byddwn yn cyflwyno'r adroddiad yn uniongyrchol i'r unigolyn cyfrifol a/neu'r darparwr cofrestredig yn hytrach na'i gyhoeddi ar y wefan. Rydym hefyd yn cyhoeddi nodyn ar y wefan sy'n dweud bod yr adroddiad ar gael trwy ofyn yn ein swyddfeydd.

Nid yw adroddiadau ar warchodwyr plant, canolfannau preswyl i deuluoedd na gwasanaethau i oedolion sydd â chwe defnyddiwr gwasanaeth neu lai yn cynnwys cyfeiriadau.

Caiff adroddiadau arolygu ar warchodwyr plant hefyd eu hanfon at rieni plant sy'n derbyn gofal yn ôl y gofyn, neu i rieni sy'n ystyried trefnu i'w plant dderbyn gofal gan warchodwr plant penodol.